# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Hafan**

**Hwlffordd**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

17/01/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Hafan

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Silver Springs Support Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 4 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Tachwedd 2022 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a fydd o bosibl yn defnyddio'r gwasanaeth. |

## Crynodeb

Cartref gofal bach yw Hafan sy'n darparu gofal a chymorth gofal a chymorth i bobl ag anableddau dysgu ac anghenion cymorth iechyd meddwl. Mae Unigolyn Cyfrifol ar waith a chaiff rheolwr y gwasanaeth ei gefnogi gan dîm gofal ymroddedig ac ymrwymedig. Mae'r bobl yn cael gofal o safon dda iawn yn y gwasanaeth ac mae ganddynt gynlluniau personol cyfredol ar waith sy'n benodol iawn i'w hanghenion unigol. Caiff y bobl eu hannog i gymryd rhan yn y broses o ddatblygu eu cynlluniau personol a chaiff eu hannibynniaeth ei hybu cymaint â phosibl. Mae'r gweithwyr gofal yn adnabod y bobl y maent yn eu cefnogi yn dda ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn eu rolau. Mae gan y darparwr weithdrefnau recriwtio diogel ar waith ar gyfer aelodau newydd o staff, a chynigir cymorth da i'r staff drwy hyfforddiant, cyfarfodydd, sesiynau goruchwylio ac arfarniadau rheolaidd.

Mae Hafan yn wasanaeth cartrefol iawn. Mae pob rhan ohono yn lân ac mewn cyflwr da. Mae'r Unigolyn Cyfrifol, sy'n goruchwylio'r gwasanaeth yn dda iawn, yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd i gefnogi'r tîm rheoli ac i oruchwylio perfformiad. Gofynnir i'r bobl a'r staff roi adborth er mwyn llywio gwelliannau i'r gwasanaeth a chaiff yr holl ddogfennaeth a hysbysiadau rheoleiddio eu cwblhau yn ôl yr angen.

## Llesiant

Mae gan y bobl lais wrth gynllunio eu gofal a chânt eu hannog i roi eu hadborth er mwyn llywio gwelliannau i'r gwasanaeth. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng y bobl a'u gweithiwr allanol penodedig lle gallant drafod pob agwedd ar eu bywydau, eu gofal a'u gobeithion ar gyfer y dyfodol. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth glir am anghenion cymorth y bobl a'u nodau a'u huchelgeisiau. Mae asesiadau risg cyfatebol hefyd ar waith, ac maent yn cynnwys gwybodaeth am y ffordd orau o gefnogi pobl pan fydd anghenion gwahanol yn codi. Mae cyfarfodydd rheolaidd â'r gweithwyr allweddol rheolaidd yn nodi unrhyw newidiadau sydd eu hangen i'r dogfennau hyn, a gaiff eu diweddaru yn ôl yr angen. Anogir y bobl i rannu eu barn am y gwasanaeth ac i awgrymu gwelliannau yn rheolaidd, a phan fydd yr Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth hefyd.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag niwed. Mae'r staff gofal yn cwblhau hyfforddiant diogelu gorfodol ac roedd yr aelodau o staff gofal y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i ddiogelu'r bobl y maent yn eu cefnogi. Caiff y cynlluniau personol eu hategu gan asesiadau risg manwl. Mae Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid priodol ar waith ar gyfer y bobl hynny nad oes ganddynt alluedd. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn gyfredol ac yn cael eu hadolygu'n briodol. Mae trefniadau diogelwch ar waith i gynnal diogelwch y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Caiff gwiriadau recriwtio cadarn eu cwblhau ar gyfer aelodau newydd o staff gofal. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant a chymorth da yn eu rolau.

Caiff llesiant emosiynol, iechyd corfforol ac iechyd meddwl y bobl eu hybu. Mae'r bobl yn byw bywydau egnïol ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i'r gwasanaeth yn rheolaidd. Mae asesiadau risg manwl ar waith ar gyfer pob gweithgaredd a gynhelir. Mae'r gweithwyr gofal yn adnabod y bobl y maent yn eu cefnogi yn dda iawn ac yn gallu nodi unrhyw newidiadau yn eu hymddangosiad a'u hiechyd, sy'n eu galluogi i gymryd camau gweithredu prydlon a phriodol. Mae gweithdrefnau da ar waith i reoli meddyginiaeth yn y gwasanaeth. Caiff y bobl eu cefnogi i fynd i apwyntiadau meddygol rheolaidd yn ôl yr angen a chaiff yr apwyntiadau hyn eu nodi yn y cofnodion gofal.

## Gofal a Chymorth

Mae cynlluniau gofal presonol cyfredol ar waith i'r bobl sy'n adlewyrchu eu hanghenion newidiol yn dda. Mae cynlluniau gofal penodol ar waith i nodi anghenion gofal a chymorth unigolion. Mae'r gwasanaeth yn rhoi pwyslais ar gefnogi'r bobl i fod mor annibynnol â phosibl. Mae'r staff yn cyfathrebu â'r bobl gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau ac mae gan y bobl weithiwr allweddol penodedig sy'n eu hadnabod yn dda. Caiff cyfarfodydd rheolaidd eu cynnal â'r bobl, lle caiff eu cynlluniau personol, eu nodau a'u teimladau cyffredinol am y gwasanaeth eu trafod a'u cofnodi. Mae cynlluniau rheoli risg manwl hefyd ar waith sy'n sicrhau bod y gweithwyr gofal yn ymwybodol o'r ffordd orau o gefnogi'r bobl ar wahanol amseroedd. Caiff y cynlluniau personol a'r asesiadau risg eu hadolygu bob tri mis o leiaf, a chânt eu diweddaru i adlewyrchu unrhyw newidiadau yn ôl yr angen.

Mae systemau da ar waith gan y gwasanaeth i gynnal iechyd y bobl ac i reoli meddyginiaethau. Gwelsom fod meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel a bod gwiriadau tymheredd ar waith. Cynhelir archwiliadau rheolaidd i leihau gwallau meddyginiaeth ac i ymdrin ag unrhyw faterion mewn modd amserol. Gwnaethom edrych ar gofnodion rhoi meddyginiaeth dau unigolyn a gwelsom eu bod wedi cael eu cwblhau'n gywir.  Caiff y bobl eu cefnogi gan weithwyr gofal sy'n eu hadnabod yn dda ac sy'n gofyn am gymorth ar unwaith os bydd eu hiechyd yn dirywio. Gwelwyd cofnodion da o apwyntiadau ac ymgyngoriadau meddygol yn y ffeiliau gofal, er enghraifft, apwyniadau Therapi Galwedigaethol, Gwasanaethau Seicoleg ac Ymddygiadol a Therapi Lleferydd ac Iaith.

Mae systemau effeithiol ar waith i sicrhau y gall y bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n bwysig iddynt. Gwelsom y bobl yn mynd allan i'r gymuned ac yn dychwelyd adref drwy gydol yr arolygiad. Gwelsom gofnodion yn dangos bod y bobl yn cymryd rhan yn y gymuned leol yn rheolaidd, er enghraifft, ymweliadau â pharc trampolîn, parc thema Oakwood, mynd i nofio, mynd i siopa ac i gaffis ac ymweld â theulu. Mae'r bobl hefyd yn mynychu cyrsiau yn y coleg lleol, gyda chymorth gan y staff gofal os bydd angen.

Mae'r staff gofal yn cwblhau hyfforddiant diogelu ac mae'r rhai y gwnaethom siarad â nhw yn deall eu cyfrifoldebau o ran rhoi gwybod am unrhyw bryderon sydd ganddynt am y bobl y maent yn eu cefnogi. Mae polisi diogelu ar waith a gafodd ei adolygu i adlewyrchu Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Mae Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid priodol ar waith er mwyn amddiffyn y bobl yn gyfreithiol.

## Yr Amgylchedd

Mae Hafan yn wasanaeth croesawgar a chartrefol sy'n helpu'r bobl i ddiwallu eu canlyniadau personol. Mae'r décor ym mhob rhan o'r adeilad o safon dda iawn. Dim ond ystafelloedd gwely unigol a gynigir, ac mae cyfleusterau en-suite ar gael yn un o'r ystafelloedd. Mae digon o doiledau ac ystafelloedd ymolchi cymunedol ar gael i'r bobl. Gwelsom y bobl yn ymlacio yn y lolfa/ystafell fwyta fawr ac yn mwynhau'r ardal synhwyraidd yn y gornel. Gall y bobl ddefnyddio'r gegin. Mae'n cynnwys digon o eitemau ac wedi'i threfnu ar ffurf cegin ddomestig. Mae bwrdd cyfathrebu yn yr ystafell fwyta er mwyn helpu'r bobl i fod yn ymwybodol o faterion cyfoes, er enghraifft, pwy sydd ar ddyletswydd, y tywydd a'r opsiynau awgrymedig ar gyfer prydau bwyd. Mae'r ardaloedd cymunedol wedi'u haddurno'n dda, yn olau ac yn cynnwys dulliau awyru digonol, ac mae'r dodrefn mewn cyflwr da. Mae'r ystafelloedd gwely wedi'u personoli a gall y bobl ddylanwadu ar y dodrefn a'r décor a gwneud dewisiadau yn hynny o beth er mwyn cyfateb i'w hanghenion a'u chwaethau unigol. Mae gardd gefn amgaeedig yn cynnig ardal ddiogel a phreifat i'r bobl fwynhau eu hamser hamdden, er enghraifft yn chwarae swing-bêl a phêl droed ac yn eistedd allan ac yn mwynhau'r awyr iach os byddant yn dewis gwneud hynny.

Mae gan y darparwr weithdrefnau da ar waith i nodi a lliniaru unrhyw risgiau iechyd a diogelwch yn y gwasanaeth. Caiff gwiriadau rheolaidd eu cynnal, gan gynnwys gwiriadau amgylcheddol, gwiriadau o'r system dân a gwiriadau o dymheredd y dŵr.  Gwelsom fod yr asesiad risg tân yn cael ei adolygu bob blwyddyn, ac mae gan bob un o'r unigolion sy'n byw yn y gwasanaeth gynllun personol ar gyfer gwagio'r adeilad y maent wedi'i ddarllen ac yn ei ddeall. Mae cyfleustodau yn y gwasanaeth yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd ac mae tystysgrifau ar waith ar eu cyfer. Mae gan y darparwr weithdrefnau cynnal a chadw ar waith ac ymdrinnir ag unrhyw faterion yn brydlon.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Caiff y bobl eu cefnogi gan dîm gofal a gaiff eu recriwtio, eu cefnogi a'u hyfforddi'n briodol ar gyfer eu rolau. Gwnaethom edrych ar dair ffeil personél, a nodwyd bod yr holl ddogfennaeth ofynnol ar waith ar gyfer recriwtio diogel. Mae hyn yn cynnwys hanes cyflogaeth flaenorol, dau eirda ysgrifenedig a gwiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae'r gweithwyr gofal a'r rheolwr yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd ac yn cael arfarniadau blynyddol. Gwelsom y matrics hyfforddiant a gwelsom fod y staff yn bodloni'r gofynion o ran hyfforddiant gorfodol ac o ran hyfforddiant datblygu sy'n benodol i'r gwasanaeth. Roedd yr adborth gan y staff gofal am weithio yn y gwasanaeth yn gadarnhaol, ac roedd eu sylwadau yn cynnwys y canlynol: *“the management are really supportive, enabling me work around my home commitments and to achieve a good work/life balance”.*

Mae systemau da ar waith i oruchwylio'r gwasanaeth yn effeithiol drwy brosesau sicrhau ansawdd parhaus a threfniadau monitro rheolaidd. Caiff archwiliadau mewnol eu cynnal gan y tîm rheoli yn y gwasanaeth ac mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd. Yn ystod yr ymweliadau, mae'r Unigolyn Cyfrifol yn bwrw golwg dros yr archwiliadau rheoli er mwyn cadarnhau eu bod yn gywir, ac yn cynnal gwiriadau pellach o ddogfennaeth ac o samplau o'r ffeiliau gofal a'r ffeiliau personél. Caiff y canlyniadau eu cofnodi yn adroddiadau chwarterol yr Unigolyn Cyfrifol. Anogir y bobl a'r staff gofal i roi adborth am y gwasanaeth yn ystod yr ymweliadau hyn er mwyn cael gwybod eu barn a llywio gwelliannau. Mae'r adroddiadau ar ansawdd y gofal a gaiff eu cwblhau ddwywaith y flwyddyn yn dangos bod yr Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio perfformiad y gwasanaeth yn briodol, gan gydnabod y cyflawniadau a wnaed ac unrhyw feysydd i'w gwella. Mae Datganiad o Ddiben y gwasanaeth yn rhoi darlun cywir o'r gwasanaeth a'r hyn y mae'n ei ddarparu i'r bobl. Gwelsom sampl o bolisïau a gweithdrefnau'r darparwr sydd wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru i adlewyrchu unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth lle y bo angen.

Mae'r lefelau staffio yn diwallu anghenion y bobl sy'n byw yn y cartref. Gwelsom enghreifftiau o bobl yn cael eu cefnogi yn y gymuned yn ystod yr arolygiad, ac roedd cymarebau staffio priodol ar waith. Mae trosiant staff y gwasanaeth yn isel sy'n darparu parhad gofal i'r bobl sy'n byw yn Hafan.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 19/03/2024